Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Nodiadau Cyfarwyddyd y Gynhadledd Achos

Pwrpas cynhadledd achos yw cytuno ar y camau gweithredu sydd eu hangen i gefnogi'r gweithiwr yn ôl i'r gwaith ar ôl absenoldeb oherwydd salwch a/neu i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â'r gwaith (gan gynnwys anabledd) sy'n gofyn am drafodaeth/camau gweithredu ar y cyd. Yn ystod y cyfarfod hwn ni fydd unrhyw fanylion clinigol sy'n ymwneud â'r gweithiwr yn cael eu trafod.

Cyn gofyn am gynhadledd achos, yn y lle cyntaf byddem yn annog rheolwyr i ofyn drwy e-bost am eglurhad ar y cyngor a roddwyd yn yr adroddiad meddygol. Ar adegau, efallai y bydd gwrthdaro rhwng canlyniadau'r adroddiad, barn y gweithiwr ac anghenion y gwasanaeth a bydd angen mynd i'r afael â rhain, yn aml gellir datrys y rhain drwy drefnu cyfarfod gyda'r Rheolwr ac Adnoddau Dynol.

***Dylid gofyn am gynhadledd achos dim ond pan fo gweithiwr wedi cael ei weld o fewn y 3 mis blaenorol a bod cyngor meddygol wedi'i dderbyn.***

**Proses**

- Dylid cyflwyno atgyfeiriad at Iechyd Galwedigaethol yn y ffordd arferol gyda'r holl wybodaeth berthnasol a gofyn am y gynhadledd achos.
- Bydd Iechyd Galwedigaethol yn trefnu apwyntiad i'r gweithiwr gyda'r ymarferydd cyn y gynhadledd achos ac yn cydgysylltu presenoldeb ar gyfer y gynhadledd achos.
- Ar ôl apwyntiad adolygu'r gweithiwr gyda'r ymarferydd, bydd y gynhadledd achos yn mynd rhagddo. Bydd y math o apwyntiad (MS Teams/ Wyneb yn Wyneb) yn seiliedig ar frysbennu meddygol yr atgyfeiriad.
- Ar ôl y gynhadledd achos, ac yn dilyn caniatâd y gweithiwr, bydd yr adroddiad meddygol sy'n seiliedig ar yr apwyntiad hwn yn cael ei anfon ymlaen yn y ffordd arferol i'r gweithiwr, y rheolwr ac Adnoddau Dynol.

Bydd y rhai sy'n bresennol fel arfer yn y gynhadledd achos yn cynnwys:

- Y Gweithiwr
- Y rheolwr llinell perthnasol/Pennaeth yr Ysgol/Pennaeth Gwasanaeth
- Ymgynghorydd Adnoddau Dynol
- Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol
- Cynrychiolydd y gweithiwr (os oes angen - cydweithiwr neu gynrychiolydd undeb)

Bydd y cyfarfod fel arfer yn mynd i'r afael â'r canlynol:

- Argymhellion gan Iechyd Galwedigaethol (lle bo'n berthnasol)
- Gofynion y rhaglen dychwelyd i'r gwaith yn raddol (lle bo'n berthnasol)
- Addasiadau a/neu gyfyngiadau yn y gweithle (lle bo'n berthnasol)
- Camau gweithredu allweddol sydd eu hangen i gefnogi'r gweithiwr yn y gwaith.

***Bydd Rheolwyr Llinell yn arwain*** *y drafodaeth gan gymryd nodiadau o'r cyfarfod.*

Bydd trafodaeth agored yn cael ei chynnal i egluro'r camau sydd eu hangen i alluogi'r gweithiwr i ddychwelyd i'r gwaith yn barhaus neu i sicrhau bod materion sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn cael eu datrys.

Er mwyn hwyluso trafodaethau neu gamau gweithredu, efallai y bydd angen cyfeirio at bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol neu ganllawiau cyfeirio eraill fel:

- Polisi Absenoldeb Salwch
- Polisi Galluogrwydd

Gall rheolwyr ddefnyddio templed y ffurflen cynhadledd achos ar y dudalen drosodd i gadw nodiadau a thrafodaethau o'r cyfarfod. Yn dilyn y cyfarfod, dylai rheolwyr anfon copïau o Dempled y Ffurflen Cynhadledd Achos neu nodiadau yn eu fformat eu hunain i'r gweithiwr, y rheolwr ac Adnoddau Dynol i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o unrhyw gamau sydd eu hangen.